# Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio 2023-24

POLISI ADDASIADAU

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| Aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen | | 3 |
| Rhagair gan y Cadeirydd | | 4 |
| Adolygiad Gorchwyl a Gorffen | | 5 |
| Trosolwg o'r Gwasanaeth | | 7 |
| Galw ar y Gwasanaeth a Heriau'r Dyfodol | | 10 |
| | Galw ar y Gwasanaeth | 10 |
| | Heriau'r Dyfodol | 12 |
| Casgliadau ac Argymhellion | | 19 |
| Atodiad: Polisi Addasiadau Drafft | | |

# 1 Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen

| | | |
|---|---|---|
|  |  |  |
| Y Cynghorydd Deryk Cundy (Cadeirydd)<br>Llafur | Y Cynghorydd Betsan Jones (Is-gadeirydd)<br>Plaid Cymru | Y Cynghorydd Ken Howell<br><br>Plaid Cymru |
|  |  |  |
| Y Cynghorydd Martyn Palfreman<br>Llafur | Y Cynghorydd Russell Sparkes<br>Plaid Cymru | Y Cynghorydd Hugh Shepardson,<br>Annibynnol |

## 2 Rhagair y Cadeirydd

Rwy'n falch o gyflwyno adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio a sefydlwyd gan y Pwyllgor ym mis Medi 2023 i gynnal adolygiad ar weithrediad Gwasanaeth Addasiadau'r Cyngor o fewn Is-adran Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol yr Adran Cymunedau i archwilio'r ôl-groniad presennol o waith a phrosesau gyda'r bwriad o wella darpariaeth gwasanaethau.

Roedd aelodau'r Pwyllgor, bryd hynny, yn teimlo bod adolygiad o'r gweithrediad presennol yn bwysig i fynd i'r afael â'r ôl-groniad ac i nodi ffyrdd o wella darpariaeth gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd a deiliaid contractau (tenantiaid) fel ei gilydd.

Fel rhan o'r adolygiad, gwnaethom archwilio'r dyletswyddau deddfwriaethol cyfredol a osodwyd ar awdurdodau lleol, o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, a Deddf Plant 1989, i ddarparu addasiadau i'r rheiny sy'n gymwys ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a'r nifer cynyddol o geisiadau am addasiadau sy'n cael eu derbyn yn unol ag adnoddau ariannol a staffio. Roedd yr adolygiad hefyd yn ymdrin ag addasiadau a wnaed i stoc dai'r Cyngor ei hun.

Rwy'n gobeithio y bydd yr argymhellion rydym wedi'u gwneud yn sicrhau gwelliannau i weithrediad y Gwasanaeth Addasiadau ac yn sicrhau gostyngiad yn yr ôl-groniad presennol o waith.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'm cyd-aelodau yn y grŵp hwn am eu cyfraniad a'u hymroddiad yn ystod yr adolygiad hwn.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r swyddogion sydd wedi darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol drwy gydol y broses.

**Y Cynghorydd Deryk Cundy**
**Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen**

## 3. Adolygiad Gorchwyl a Gorffen

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023, cytunodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Craffu ar weithrediad Gwasanaeth Addasiadau'r Cyngor o fewn Is-adran Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol yr Adran Cymunedau i archwilio'r ôl-groniad presennol o waith a'r prosesau gyda'r bwriad o wella darpariaeth gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd a deiliaid contractau (tenantiaid).

Wrth ddewis y pwnc hwn i'w adolygu, nododd y pwyllgor:

- Bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 i ddarparu addasiadau i'r rheiny sy'n gymwys i gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Darperir addasiadau i Denantiaid y Cyngor yn unol â'r un fframwaith â'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl.
- Gall darparu addasiadau gynorthwyo gyda rhyddhau pobl yn amserol o'r ysbyty a gall helpu i atal damweiniau fel baglu, llithro a chwympiadau a thrwy hynny hefyd gynorthwyo'r sector gofal cymdeithasol trwy leihau'r angen am ofal cartref a gofal preswyl.
- Roedd nifer y ceisiadau am addasiadau wedi cynyddu'n sylweddol ac ynghyd â phoblogaeth sy'n heneiddio, rhagwelwyd y byddai'r galw yn cynyddu yn y dyfodol.
- Roedd y cynnydd yn y galw wedi arwain at ôl-groniad o gleientiaid yn aros am Therapydd Galwedigaethol i asesu'r ymgeisydd a'r swyddog technegol i gostio ac i archebu'r gwaith.

**Prif Gwmpas a Nodau'r Grŵp**

Cytunwyd ar brif Gwmpas a Nodau'r grŵp fel a ganlyn:

- Canolbwyntio ar adolygu'r polisi presennol a'r galw uchel presennol am y gwasanaethau a chyfrannu at ddatblygu Polisi Addasiadau Cartref newydd.
- Trafod y galw presennol am addasiadau cartref
- Trafod y model darparu gwasanaeth presennol
- Ystyried effaith cael gwared ar y prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- Archwilio'r adnoddau sydd ar gael, cyllidebol a staffio, sydd eu hangen i ateb y galw.

**Aelodaeth o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen**

Cytunodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd, wrth gytuno i Gylch Gorchwyl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, hefyd y bydd aelodaeth y Grŵp yn cynnwys 6 Aelod Etholedig a benodwyd i adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor cyfan, cyn belled ag y bo modd, gan benodi'r aelodau canlynol:

- Y Cynghorydd Deryk Cundy (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd Betsan Jones (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorydd Ken Howell
- Y Cynghorydd Martyn Palfreman
- Y Cynghorydd Russell Sparkes
- Y Cynghorydd Hugh Shepardson

Rhoddodd yr Uned Gwasanaethau Democrataidd, sydd wedi'i lleoli yn Adran y Prif Weithredwr gefnogaeth gyffredinol i'r Grŵp.

Darparodd y swyddogion canlynol gyngor a chefnogaeth arbenigol yn ystod adolygiad y Grŵp:

- Jonathan Fearn – Pennaeth Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol
- Robert Evans – Rheolwr Asiantaeth Gwella Cartrefi
- Carolyn Seabourne – Arweinydd y Tîm Gwella Cartrefi
- Paula Sadler – Uwch-ymarferydd (Therapydd Galwedigaethol)
- Gareth Miller – Rheolwr Trawsnewid Busnes a Rhaglenni

Dangosir presenoldeb aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 5 cyfarfod yn ystod y cyfnod rhwng Rhagfyr 2023 a Mai 2024

| Aelod Craffu | Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|
| Deryk Cundy (Cadeirydd) | 5 |
| Betsan Jones (Is-gadeirydd) | 5 |
| Ken Howell | 4 |
| Martyn Palfreman | 5 |
| Russell Sparks | 1 |
| Hugh Shepardson | 3 |

# 4. TROSOLWG O'R GWASANAETH

### 1. Nodau a Diben

Mae'r Gwasanaeth Addasiadau Cartref yn dod o dan yr Is-adran Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol yn yr Adran Cymunedau ac yn darparu addasiadau cartref drwy'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl (ar gyfer perchnogion tai ac eiddo rhent preifat) ac o fewn Stoc Dai y Cyngor.

Nodau'r Gwasanaeth yw:

- Helpu pobl i aros yn iach yn eu cartrefi am hirach.
- Rhoi dewis a rheolaeth i bobl dros eu hiechyd a'u llesiant.
- Helpu pobl i gael mynediad i'r gymuned ehangach.
- Atal neu leihau'r risg o gwympo.
- Lleihau'r angen am ofal ffurfiol/anffurfiol neu ofal preswyl.
- Osgoi mynd i'r ysbyty yn ddiangen.

### 2. Cyllidebau

Er mwyn cyflawni'r nodau uchod, mae gan y gwasanaeth gyllideb weithredol ar gyfer 2023/24 o £5.297m sy'n cynnwys:

- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - £2.7m
- Cyllid Galluogi Llywodraeth Cymru - £368k.
- Cronfa Tai â Gofal (HCF drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol) - £100k
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Tai â Gofal - £192K
- Addasiadau Eiddo'r Cyngor - £2m.

### 3. Y Fframwaith Deddfwriaethol

Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yw'r unig grantiau gorfodol cenedlaethol sydd ar gael, gyda'r holl fathau eraill o gymorth yn ôl disgresiwn pob Awdurdod Lleol gyda'r dyletswyddau statudol ar gyfer darparu addasiadau yn cael eu gosod yn y ddeddfwriaeth/polisïau canlynol:

- Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) (2002).
- Addasiadau Tai: Swyddfa Archwilio Cymru (2018).
- Addasiadau Tai: Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (2018)

- Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai Llywodraeth Cymru 2019
- Adolygiad o Addasiadau Byw'n Annibynnol: Llywodraeth Cymru (2015)
- Tai a Phobl Anabl: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018)

O fewn darpariaethau Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, (sef y Ddeddfwriaeth Sylfaenol) mae Adrannau 23 a 24 yn manylu ar y mathau o waith sy'n gymwys ar gyfer dyfarnu Grant Cyfleusterau i'r Anabl gorfodol ynghyd â'r rhwymedigaethau ar awdurdod lleol ar gyfer dyfarnu grant.

Adran 23 – Gwaith Cymwys

1. Hwyluso mynediad person anabl i'r:
   a) Breswylfa
   b) Ystafell y gellir ei defnyddio fel prif ystafell y teulu, neu ar gyfer cysgu ynddi
   c) Toiled, bath, cawod ac ati (neu ddarparu ystafell ar gyfer y cyfleusterau hyn)
2. Hwyluso paratoi bwyd gan y person anabl
3. Gwella/darparu system wresogi i ddiwallu anghenion y person anabl.
4. Hwyluso defnydd y person anabl o ffynhonnell bŵer
5. Hwyluso mynediad a symud o amgylch y cartref er mwyn galluogi'r person anabl i ofalu am rywun sy'n dibynnu arno neu arni.
6. Gwneud y breswylfa yn ddiogel i'r person anabl ac eraill sy'n byw gydag ef neu hi

Adran 24 - Rhwymedigaethau Awdurdod Lleol ar gyfer dyfarnu cais


(3) Ni chaiff awdurdod tai lleol gymeradwyo cais am grant oni bai ei fod wedi ei fodloni:

> (a) bod y gwaith perthnasol yn angenrheidiol ac yn briodol i ddiwallu anghenion y meddiannydd anabl; a
>
> (b) ei bod yn rhesymol ac yn ymarferol cyflawni'r gwaith perthnasol gan ystyried cyflwr y canlynol:
>
>> (i) y breswylfa, carafán neu gwch preswyl cymwys neu
>> (ii) yr adeilad

Fel arfer, byddai addasiadau ar gyfer Cartrefi'r Cyngor yn cael eu darparu yn unol â'r un fframwaith â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

## 4. Crynodeb o'r Broses a'r Mathau o Addasiadau

Mae prosesu ceisiadau ar gyfer dyfarnu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac Addasiadau i Gartrefi Cyngor yn dilyn y broses 5 cam canlynol:




Pan asesir ceisiadau, maent yn cael eu categoreiddio yn dri chategori maint - bach, canolig a mawr - cost y gwaith ac a yw'r rheiny'n destun prawf modd h.y.

Bach – heb fod yn destun prawf modd

- Rheiliau Llaw / Canllaw
- Grisiau Platfform
- Rampiau Bach
- Diogell Allweddi
- Tapiau Lefel

Canolig – heb fod yn destun prawf modd

- Lifftiau Grisiau
- Cawodydd Hygyrch
- Teclynnau Codi Trac Nenfwd
- Rampiau mwy
- Parcio hygyrch i gadeiriau olwyn


Mawr – yn destun prawf modd


- Newidiadau strwythurol mewnol
- Estyniadau
- Lifftiau drwy'r llawr

# 5. GALW AR Y GWASANAETH A HERIAU'R DYFODOL


**Galw ar y Gwasanaeth**

Mae'r Gwasanaeth Addasiadau wedi gweld galw cynyddol am addasiadau cartref dros y pum mlynedd diwethaf, gyda'r eithriad amlwg ar gyfer 2020-21 lle bu gostyngiad yn y galw, yn cyfateb â'r cyfyngiadau symud Covid-19 cychwynnol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.



Mae'r cynnydd hwn yn y galw wedi arwain at y gwasanaeth yn profi ôl-groniad o ymholiadau gyda 499 o ymholiadau yn aros am asesiad gan Therapydd Galwedigaethol ac effaith ganlyniadol ar yr amseroedd darparu.




**Amserlen Bresennol ar gyfer Darparu**

| | Council Property Adaptation (Council Property) | | Disabled Facilities Grant (Private Property) | |
|---|---|---|---|---|
| | Average number of Days | Number of Adaptations completed | Average number of Days | Number of Adaptations completed |
| **Large** | 743 | 5 | 667 | 6 |
| **Medium** | 353 | 103 | 372 | 177 |
| **Small** | 92 | 280 | 16* | 1178* |

*Darparwyd gan: Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

**Heriau'r Dyfodol**

Nododd y Grŵp fod y galw presennol, a chynyddol, am addasiadau, ar gyfer eiddo cyngor ac eiddo preifat yn creu heriau i'r gwasanaeth wrth symud ymlaen a hynny mewn sawl ffordd wahanol:

1. **Staffio**

Holodd y Grŵp am yr adnodd staffio presennol sydd ar gael i ddelio â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac Addasiadau. Rhoddwyd gwybod i'r Grŵp fod y sefyllfa staffio bresennol o fewn y tîm Addasiadau yn dod i gyfanswm o 15 ac mae'r lefelau cynyddol o geisiadau am addasiadau sy'n dod i law yn creu straen ar yr uned gyda staff yn gorfod gweithio goramser i'w prosesu. Er bod y goramser yn helpu i fynd i'r afael â'r lefel uchel o geisiadau, gwnaeth y Grŵp gydnabod nad oedd yn gynaliadwy a mynegodd bryder am yr effaith ar lesiant y Tîm. Roedd yr Uned yn dibynnu ar oramser i sicrhau bod yr holl gyllid oedd ar gael yn cael ei ddefnyddio.

Nododd y Grŵp, er bod y cyflenwad staffio presennol o dan bwysau, bod adroddiad penderfyniad swyddog yn cael ei baratoi ar gyfer staffio ychwanegol gan ddefnyddio'r cyllid a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer goramser ac incwm ychwanegol a gynhyrchir. Roedd y Grŵp am wneud argymhelliad clir bod adnoddau ychwanegol yn hanfodol i sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy.

| |
|---|
| **ARGYMHELLIR bod staffio'n cael ei adolygu i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ddelio â'r galw mawr parhaus am y Gwasanaeth** |

2. **Therapyddion Galwedigaethol Tai**

Trafododd y Grŵp y rôl a'r angen am Therapyddion Galwedigaethol Tai a sut mae'r rôl hon yn cael ei chydnabod fel rôl arbenigol yng Ngholeg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol. Mae'r Uwch Ymarferydd Therapi Galwedigaethol Tai yn cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr Therapi Galwedigaethol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddarparu arbenigedd a gwybodaeth am addasiadau tai ac yn cyfrannu at wasanaeth di-dor i'r ymgeisydd/claf. Mae adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019 Gwneud Gwahaniaeth Tai ac Iechyd: Prif Adroddiad Achos dros Fuddsoddi yn nodi bod pob £1 a fuddsoddir mewn addasiadau cartref yn creu arbediad cost o £7.50 ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae swyddogion o'r Tîm Addasiadau Cartref hefyd yn mynychu cyfarfodydd pwynt cyffwrdd bob pythefnos gyda chydweithwyr yn yr ysbytai i hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae aelodaeth o'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys nyrsys cyswllt rhyddhau, staff Dewisiadau Tai, a staff Addasiadau Cartref gyda'r nod o sicrhau ein bod yn rhagweithiol

o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Hefyd, mae'r tîm wedi dod yn fwyfwy cysylltiedig â'r gwasanaeth ambiwlans i'w cefnogi pan fo angen trosglwyddo cleifion bariatrig.

Trafododd y Grŵp werth cyflwyno addasiadau amserol i hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty gyda chost gwely ysbyty cyffredinol yn oddeutu £350 y dydd. Byddai oedi o tua 3 wythnos o ran rhyddhau o'r ysbyty yn gyfwerth â chost gosod cawod ystafell wlyb sy'n costio £7,000.

Yn ogystal, mae addasiadau yn atal derbyniadau diangen i'r ysbyty wrth iddynt leihau'r risg o ddamweiniau fel baglu, llithriadau a chwympiadau a chynnal annibyniaeth y cleient. Gall addasiadau hefyd helpu i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol drwy leihau gofal cartref a'r angen am ofal preswyl. Gyda'r galw presennol am ofal cartref, mae gan addasiadau rôl hanfodol i'w chwarae wrth ryddhau capasiti i ddarparu mwy o ofal cartref.

## 3. Contractwyr

Nododd y Grŵp fod anawsterau yn codi wrth gyflogi contractwyr i wneud addasiadau ar gyfer eiddo'r cyngor o dan y trefniadau fframwaith presennol gyda chontractwyr yn 'sypynnu' gwaith mewn ardaloedd i'w gwneud ar yr un pryd yn hytrach na bob yn damaid i sicrhau'r enillion mwyaf, gan arwain o ganlyniad at oedi'r amserlen ar gyfer y gwaith. Fodd bynnag, y gobaith oedd y byddai'r fframwaith contractwr newydd sy'n cael ei ddatblygu yn mynd i'r afael â'r agwedd honno.

Gallai mesurau eraill i leihau amseroedd darparu gynnwys sefydlu tîm mewnol i wneud gwaith tebyg i'r hyn a gyflwynwyd gan yr awdurdod i leihau amseroedd gwag.

## 4. Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

Yn ogystal â chomisiynu contractwyr yn uniongyrchol, mae gan y cyngor hefyd Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Gofal a Thrwsio i wneud addasiadau bach yn y sector preifat. Mae'r Awdurdod yn ariannu addasiadau ar raddfa fach ac mae Gofal a Thrwsio yn darparu trwy ei dîm gwasanaethau ymarferol mewnol a chontractwyr allanol sy'n cynorthwyo i ateb y galw mawr.

Trafododd y Grŵp rôl Gofal a Thrwsio gyda Chadeirydd y Grŵp, yr Aelod Cabinet dros Gartrefi, Pennaeth Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol, a'r Rheolwr Addasiadau Cartref i gyd yn eistedd ar fwrdd Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin sy'n sicrhau cysylltiad cryf rhwng Gofal a Thrwsio a'r Cyngor Sir.

Mae Gofal a Thrwsio wedi'i leoli ar y cyd â'r Tîm Addasiadau Cartref yn swyddfa Porth y Dwyrain, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n

gwneud cais am grantiau cyfleusterau i'r anabl ac addasiadau ar raddfa fach i gefnogi preswylwyr y sector preifat i gadw annibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain.

Yn ystod 2023/24 cwblhaodd Gofal a Thrwsio 1,627 o addasiadau ar raddfa fach ond dim ond 54% a gwblhawyd gan y tîm gwasanaeth ymarferol mewnol Gofal a Thrwsio gyda'r 46% sy'n weddill wedi'u gosod gan gontractwyr allanol wedi'u cyflogi gan Gofal a Thrwsio. Mae Gofal a Thrwsio yn codi ffi weinyddol o 10% am yr holl addasiadau a gwblhawyd.

## 5. Profion Modd

Ym mis Mawrth 2021 mewn datganiad ysgrifenedig cyhoeddodd Julie James A.C., Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru, fesurau i ddileu'r prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl bach a chanolig, ac roedd wedi gofyn i Awdurdodau Lleol ddefnyddio eu pwerau o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio 2002 i sicrhau bod Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer addasiadau bach a chanolig ar gael heb brawf modd.

Cymeradwyodd Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin y defnydd o'r pŵer hwnnw ym mis Chwefror 2022. Ar ôl y penderfyniad hwnnw, roedd yr Awdurdod wedi gweld cynnydd yn y ceisiadau am addasiadau y gellid eu priodoli yn rhannol i gael gwared ar y profion modd. O ystyried y galw cynyddol am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, ystyriodd y Grŵp fanteision / anfanteision posibl ail-sefydlu'r prawf modd fel dull o reoli'r galw a chyfyngu grantiau i'r rheiny na allent fforddio'r addasiadau gofynnol. Gyda hynny mewn golwg, ystyriwyd y tri opsiwn canlynol.

<u>Opsiwn 1</u> - Parhau heb unrhyw brawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar raddfa fach a chanolig a monitro'r effaith am 12 mis arall.

<u>Opsiwn 2</u> – Ail-gyflwyno profion modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar raddfa fach a chanolig ond derbyn y byddai'r gweithredu hwnnw yn arwain at ddyraniad llai o ran cyllid Galluogi (£122,763) gan Lywodraeth Cymru.

<u>Opsiwn 3</u> – Ail-gyflwyno profion modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar raddfa ganolig yn unig a thrafod yr effaith ar gyllid ychwanegol gyda Llywodraeth Cymru.

Roedd y Grŵp, ar ôl ystyried yr opsiynau uchod, wedi rhoi sylw i'r pwysau sy'n cael ei roi ar y gyllideb gan y nifer cynyddol o geisiadau grant a oedd yn dod i law ac o'r farn y dylid ailgyflwyno profion modd i helpu i reoli'r ceisiadau cynyddol sy'n cael eu derbyn.

Ar ôl dod i'r casgliad uchod, ystyriodd y Grŵp rinweddau a ddylid argymell ailgyflwyno profion modd y manylir arnynt yn opsiynau 2 a 3.

Nododd y Grŵp, o ran y ceisiadau grant bach, eu bod wedi'u cyfyngu i fân weithiau fel rheiliau llaw / rheiliau cydio, grisiau platfform a rampiau bach ac ati ac y gallent am gost fach nid yn unig wella ansawdd bywyd ond hefyd weithredu fel mesur ataliol wrth leihau cwympiadau er enghraifft a'r galw dilynol ar ysbytai a gwasanaethau cymdeithasol. Byddai'r gwaith hwnnw hefyd yn helpu i leihau'r cynnydd posibl a chyflymu gwaith grant ar raddfa ganolig neu fawr. Yn unol â hynny, roedd y Grŵp o'r farn na ddylid cyflwyno profion modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar raddfa fach.

O ran ailgyflwyno profion modd ar gyfer grantiau canolig, nododd y Grŵp fod y Cyngor, ar ôl cael gwared ar y prawf ym mis Chwefror 2022, wedi derbyn 65 o geisiadau grant ailadroddol gwerth cyfanswm o £574,928 gan geisiadau na chyflwynwyd ar y cychwyn gan yr ymgeiswyr. Teimlwyd, felly, o ystyried y galw presennol am grant, y dylai'r Cyngor ystyried ailgyflwyno profion modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar raddfa ganolig.

| | Number of applications | Largest DFG | Average DFG | **Total Cost** | WG Enable Funding |
|---|---|---|---|---|---|
| 2022 / 23 | 34 | £ 23,813.88 | £ 8,552.88 | **£ 290,798.00** | £ 122,763.00 |
| 2023 / 24 | 31 | £ 20,832.48 | £ 9,165.48 | **£ 284,130.00** | £ 122,763.00 |

**ARGYMHELLWYD bod y Cyngor yn ystyried ailgyflwyno profion modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar raddfa ganolig**

## 6. Polisi Goleuadau Traffig Eiddo'r Cyngor

Roedd Sir Gaerfyrddin yn gweithredu polisi holl gynhwysfawr, a elwir yn 'Bolisi Goleuadau Traffig' lle na fyddai'n gwneud addasiadau i eiddo'r cyngor pe bai'r eiddo hwnnw'n cael ei gategoreiddio fel eiddo coch. Y dosbarthiadau asesu presennol yw:

- **Eiddo Gwyrdd** – addasadwy ac yn hygyrch ar gyfer defnyddiwr cadair olwyn e.e
  (1) Mae ganddo fynediad y gellir ei addasu'n hawdd i'w ddefnyddio gan gadair olwyn?
  (2) Mae ganddo fynediad gwastad y gellir ei gyrchu ar hyn o bryd gan gadair olwyn.

- **Eiddo Oren** – yn rhannol addasadwy ac o bosibl yn addas i ymgeiswyr sydd â rhywfaint o fân broblemau symud e.e.
  (1) Mae ganddo fynediad â rhywfaint o lethr gyda phosibilrwydd o'i addasu ar gyfer cadair olwyn?
  (2) Mae ganddo fynediad a all gynnwys grisiau platfform graddedig?

- **Eiddo Coch** – heb fod yn addasadwy nac yn addas i bobl â phroblemau symudedd e.e.
  (1) Mae ganddo fynediad sy'n anaddas ar gyfer defnyddiwr cadair olwyn.
  (2) Ni allai ymgeisydd anabl gael mynediad na gadael yr eiddo heb gymorth sylweddol.
  (3) Mae'r topograffi a'r graddiant yn ei gwneud hi'n anymarferol neu'n aneconomaidd addasu'r eiddo.

Gyda'r uchod mewn golwg, ystyriodd y Grŵp y tri opsiwn canlynol ar gyfer darparu addasiadau ar gyfer eiddo'r cyngor yn y dyfodol:

Opsiwn 1 - Parhau gyda'r Polisi Goleuadau Traffig presennol a pheidio â darparu unrhyw addasiadau os nad oes modd cael mynediad diogel yn yr eiddo a gofyn i'r tenant symud i eiddo mwy addas;

Opsiwn 2 – Darparu addasiadau bach yn unig, fel mesur dros dro a gofyn i'r tenant symud i eiddo mwy addas;

Opsiwn 3 – Ystyried anghenion y tenant fel achos unigol a darparu'r addasiadau gofynnol os oedd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau.

Roedd y Grŵp, ar ôl ystyried yr opsiynau uchod, o'r farn y dylai'r polisi goleuadau traffig presennol a ddefnyddir i asesu pa mor addas yw gwneud addasiadau i dai cyngor gael eu disodli gan opsiwn 3 gyda'r nod o ddiwallu anghenion unigol tenantiaid a darparu'r addasiadau gofynnol os oedd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau. Yn unol â hynny, cytunodd y Grŵp i fabwysiadu'r templed canlynol y gellid mesur ceisiadau yn ei erbyn:

| | Categori | I'w ystyried | Ie/Na |
|---|---|---|---|
| Beth sy'n bwysig i'r tenant | Nodau/Amcanion | A all y gwaith gefnogi rolau ac arferion y person anabl, gan gynnwys gofalu am eraill neu gefnogi gofalwyr sy'n gofalu am y person anabl? | |
| Anghenion a nodwyd | Hirdymor a chynaliadwy | A fydd y gwaith yn darparu ateb hirdymor i ddiwallu'r angen/anghenion a'r defnydd yn y dyfodol? | |
| Cyraeddadwy yn yr Amgylchedd | Math o Addasiad | A ellir cyflawni'r addasiad o fewn yr eiddo. | |
| | Economaidd | A fydd y gwaith yn rhoi gwerth am arian wrth leihau costau gofal? | |

Os na oedd yr ateb i unrhyw un o'r uchod, dylid ystyried dewisiadau eraill addas, a allai gynnwys tai eraill.

**CYTUNWYD y dylid disodli'r Polisi Goleuadau Traffig presennol a ddefnyddir i asesu addasrwydd eiddo'r cyngor ar gyfer gwneud addasiadau, gydag Opsiwn 3 uchod wedi'i anelu at ddiwallu anghenion unigol tenantiaid a darparu'r addasiadau angenrheidiol os oedd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau.**

**7. Plant Maeth wedi'u lleoli gan Awdurdod Lleol arall**

Ystyriodd y Grŵp ddull presennol y cyngor o ddyfarnu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl er mwyn gwneud addasiadau lle cafodd plentyn maeth ei leoli yn Sir Gaerfyrddin gan awdurdod lleol arall. Nodwyd bod gan blant maeth, ar hyn o bryd, hawl i wneud cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 gydag uchafswm grant gorfodol yng Nghymru o hyd at £36k gydag unrhyw arian ychwanegol yn cael ei ariannu gan yr awdurdod lleoli.

Rhoddwyd gwybod i'r Grŵp, er bod awdurdodau lleol eraill yng Nghymru wedi dyfarnu grantiau o'r fath, mai dull Sir Gaerfyrddin oedd bod yn rhaid i'r awdurdod lleoli, cyn unrhyw ddyfarniad grant, ddangos yn gyntaf fod y lleoliad cychwynnol yn briodol fel sy'n ofynnol gan Adran 22c o Ddeddf Plant 1989 ac os na, yna dylai'r awdurdod lleoli ariannu cost gyfan unrhyw waith gofynnol. Fodd bynnag, gan nad oedd y dull hwnnw wedi'i fanylu'n ffurfiol o fewn y polisi presennol, roedd y Grŵp o'r farn y dylid gwneud y ddarpariaeth ganlynol o fewn y Polisi Addasiadau i fynd i'r afael â'r mater hwnnw:

Mae gan blant maeth hawl i wneud cais am gyllid Grant Cyfleusterau i'r Anabl o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (HGCRA) gydag uchafswm grant gorfodol yng Nghymru o hyd at £36,000. Fodd bynnag, mae Adran 22c o Ddeddf Plant 1989 yn nodi, os yw plentyn yn anabl, bod yn rhaid i'r awdurdod lleol sy'n trefnu'r lleoliad sicrhau bod y llety a ddarperir:

- Yn addas i ddiwallu anghenion hirdymor presennol y plentyn sydd wedi'u diagnosio a'u rhagweld;
- Yn gyson â chynllun gofal y plentyn; ac
- Nid yw'n achosi problem gorlenwi fel y nodir yn Atodiad 4 Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyn y byddai cais Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn cael ei dderbyn, rhaid i'r Awdurdod Lleol sy'n trefnu'r lleoliad ddangos tystiolaeth o sut roedd yr eiddo yn bodloni'r meini prawf uchod wrth drefnu'r lleoliad a sut mae'r amgylchiadau wedi newid ers hynny.

**CYTUNWYD bod Polisi Addasiadau'r Cyngor yn cynnwys yr adran uchod sy'n ymwneud â dyfarnu Grant Cyfleusterau i'r Anabl i blant maeth a leolir yn Sir Gaerfyrddin gan awdurdod lleol arall.**

**8. Amodau'r Grant**

Nododd y Grŵp fod amodau a nodir yn y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (Amodau sy'n ymwneud â chymeradwyo neu dalu grant) Cydsyniad Cyffredinol 2008 (Cymru) yn darparu, lle mae cost Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn fwy na £5,000, y codir tâl ar yr eiddo addasedig lle gellir adennill swm llawn y grant heb y £5,000 cyntaf o fewn 10 mlynedd o ddyddiad y Dystysgrif Cwblhau. Yn unol â'r ddarpariaeth honno, ystyriodd y Grŵp gynnwys y geiriad canlynol yn ei Bolisi Addasiadau yn manylu ar ddull y Cyngor o ran pryd y byddai angen ad-dalu grant a'r eithriadau i'r polisi hwnnw.

*<u>Amodau Grant sy'n gofyn am ad-dalu Grant.</u>*
*Roedd y grŵp o'r farn bod y tri amod arfaethedig canlynol i'w cymhwyso ar gyfer ad-dalu Grant Cyfleusterau i'r Anabl ynghyd â 3 eithriad arfaethedig ar gyfer hynny h.y.*

*Amodau ar gyfer ad-dalu:*

1. *Pan fydd gwaredu eiddo yn digwydd neu,*
2. *Mae amodau'r grant yn cael eu torri mewn perthynas â chymorth grant neu,*
3. *Mae amodau grant yn cael eu torri sy'n berthnasol drwy gydol y cyfnod o 10 mlynedd o ddyddiad y Dystysgrif Cwblhau (y dyddiad Ardystiedig)*

*Eithriadau:*

1. *I ba raddau y byddai derbynnydd y grant yn dioddef caledi ariannol pe bai'n ofynnol iddo/iddi ad-dalu'r grant cyfan neu ran ohono.*
2. *P'un a yw gwaredu eiddo yn digwydd i alluogi'r sawl sy'n derbyn y grant i ymgymryd â chyflogaeth, neu newid lleoliad cyflogaeth.*
3. *Pan fydd yn rhaid i ymgeisydd y grant werthu'r eiddo i dderbyn gofal.*

*Bydd achosion lle gallai'r cyngor ystyried peidio â gofyn am ad-daliad grant yn cael eu hystyried gan Reolwr y Tîm Addasiadau Cartref a rhaid gwneud ceisiadau am eithriad yn ysgrifenedig i'r Tîm Addasiadau Cartref, Cyngor Sir Caerfyrddin gyda manylion llawn yn cefnogi'r cais i hepgor yr ad-daliad grant.*

**CYTUNWYD bod y ddarpariaeth uchod sy'n manylu ar yr amgylchiadau ar gyfer ad-dalu grant ac eithriadau iddynt i'w nodi ym Mholisi Addasiadau'r Cyngor.**

## 9. <u>Blaenoriaethau yn erbyn Y Galw</u>

Trafododd y Grŵp flaenoriaethu ymholiadau a'r anawsterau o ystyried bod gan yr awdurdod tai lleol ddyletswydd statudol o dan ddeddfwriaeth i ddarparu addasiadau i'r rheiny sy'n gymwys i gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Nodwyd bod y galw am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn ers 2019/20 gyda'r gwariant ar gyfer 2023/24 wedi rhagori ar y gyllideb a ddyrannwyd. Ers 2019 mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi cynyddu o lai na 1200 i fwy na 1800 ar gyfer 2023/24 gyda chyfanswm y gwariant ar gyfer 2023/24 yn £2.85m yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael o

£2.78m. Yn ogystal â'r galw cynyddol byddai cyllideb 2024/25 £400k yn llai na'r hyn a ddarparwyd ar gyfer 2023/24.

| 5 Year Budgets | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
| Disabled Facilities Grants (General Fund) | £2.78m * | £2.3m | £2.0m | £2.5m | £2.5m | £2.5m |
| Council Property Adaptations (HRA) | £2m | £2m | £2m | £2m | TBC | TBC |

** Yn cynnwys cario drosodd o 2022/23*

Oherwydd y galw cynyddol hwn a'r gostyngiad yn y gyllideb, edrychodd y grŵp ar sut y gallai flaenoriaethu achosion o fewn y gyllideb a nodwyd ac archwiliodd y pedwar opsiwn canlynol:

1. Rhannu'r gyllideb rhwng y grwpiau brysbennu:
   - Blaenoriaeth 1 - Llwybr cyflym - £500k
   - Blaenoriaeth 2 – Uchel £1m
   - Blaenoriaeth 3 – Safonol £500k

2. Rhannu'r gyllideb rhwng y math o addasiadau:
   - Graddfa fach - £500k
   - Canolig - £1m
   - Mawr - £500k

3. Blaenoriaethu ar hirhoedledd defnydd yr addasiadau

4. Blaenoriaethu addasiadau canolig dros addasiadau mawr:
   - bod â rhaglen gynlluniedig o addasiadau ar raddfa fawr a fyddai'n golygu bod ymgeiswyr yn aros am sawl blwyddyn i'r gwaith angenrheidiol gael ei gwblhau.

Roedd y Grŵp wrth ystyried blaenoriaethu ceisiadau, o'r farn y byddai'n anodd iddo argymell, a dod i gasgliad ar unrhyw eiriad ffurfiol ar flaenoriaethu o fewn y Polisi Addasiadau. Yn unol â hynny, roedd o'r farn gan y dylid cymeradwyo grantiau yn ôl angen, mai swyddogion proffesiynol y Cyngor oedd â'r offer gorau/fwyaf cymwys i wneud yr asesiadau hynny.

## 6. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Daeth y Grŵp, ar ôl archwilio'r prosesau a'r galw cyfredol ar y Gwasanaeth Addasiadau, i'r casgliadau a'r argymhellion canlynol.

**Casgliadau**

1. Roedd y Gwasanaeth Addasiadau yn wynebu mwy o alw am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gan arwain at ôl-groniad o geisiadau yn aros i gael eu prosesu.

2. Roedd yr adnoddau staffio presennol yn cyfrannu at yr ôl-groniad o geisiadau ond bod achos busnes yn cael ei baratoi ar gyfer staff ychwanegol.

3. Yn sgil cael gwared ar brofion modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar raddfa ganolig cynyddodd y galw am grantiau. Gallai ailgyflwyno'r profion modd leihau lefel y galw hwnnw a'r galw dilynol ar adnoddau sy'n prinhau a dylai Cabinet y Cyngor ystyried ailgyflwyno profion modd ar gyfer ceisiadau ar raddfa ganolig. Pe bai'n cael ei fabwysiadu, byddai hynny'n arwain at golli cyllid grant Llywodraeth Cymru o £122,763. Fodd bynnag, yn seiliedig ar ddata'r ddwy flynedd ddiwethaf ar ymgeiswyr ailadroddol oherwydd cael gwared ar brofion modd, byddai hyn yn arwain at gynnydd net yn y gyllideb o £164,701 y flwyddyn.

4. Dylid nodi telerau dyfarnu Grant Cyfleusterau i'r Anabl i blentyn maeth sydd wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin gan awdurdod lleol arall yn glir a'u manylu ym mholisi addasiadau'r Cyngor.

5. Dylai'r telerau ar gyfer ad-dalu Grant Cyfleusterau i'r Anabl ac unrhyw eithriadau iddo gael eu nodi'n glir ym Mholisi Addasiadau'r Cyngor.

6. Dylai'r System Goleuadau Traffig gyfredol a ddefnyddir i asesu dichonoldeb eiddo'r cyngor ar gyfer addasiadau gael ei disodli gan system yn seiliedig ar ddiwallu anghenion unigolyn os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau fel y nodir yn opsiwn 3 yn yr adroddiad hwn.

7. Er bod y galw am Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn peri pryder, dylai'r penderfyniad ar flaenoriaethu dyfarniadau grantiau yn seiliedig ar angen gael ei wneud gan swyddogion proffesiynol y Cyngor.

**Argymhellion**

1. Y gofynnir i Gabinet y Cyngor ystyried ailgyflwyno prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar raddfa ganolig.

2. Bod y Polisi Addasiadau Drafft diwygiedig, wedi'i atodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad, sy'n cynnwys diwygiadau awgrymedig y Grŵp ar gyfer newid yn cael ei fabwysiadu yn amodol ar y Cabinet yn ystyried argymhelliad 1 uchod.

3. Amodau Ad-dalu Grant ar yr holl Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl dros £5,000 os yw'r eiddo'n cael ei werthu o fewn 10 mlynedd ar ôl cwblhau'r addasiad gyda'r eithriadau canlynol yn unig:
    - Caledi ariannol
    - Symud am resymau cyflogaeth
    - Symud i ofal preswyl

4. Nid ystyrir addasiadau ar gyfer plant maeth a leolir yn Sir Gaerfyrddin gan Awdurdod Lleol arall oni bai y bodlonir meini prawf yn y polisi.

5. Bod staffio'n cael ei adolygu i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ddelio â'r galw mawr parhaus am y Gwasanaeth.